Adran Gwaith
a Phensiynau

# Taliad Cymorth Profedigaeth

## Help pan fydd eich gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner roeddech yn byw â nhw fel eich bod yn briod wedi marw

**Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi.**

Os hoffech gael braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 731 0453** neu Ffôn testun **0800 731 0456** a dywedwch wrthym beth sydd angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

### Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am ‘Cydraddoldeb’ ar **www.gov.uk**

Mae’r pecyn hwn yn cynnws
- mwy o wybodaeth am Daliad Cymorth Profedigaeth
- ffurflen gais Taliad Cymorth Profedigaeth.

**BSP1W** 02/23

# Cynnwys


**Beth yw Taliad Cymorth Profedigaeth?** 3

**Allaf gael Taliad Cymorth Payment?** 3

**Faint gallaf ei gael?** 3

**Pwy all gael y gyfradd uwch?** 3

**Sut i wneud cais** 4

**Pryd i wneud cais** 4

**Mwy o wybodaeth** 4

**Mwy am Daliad Cymorth Profedigaeth** 5

**Ydy Taliad Cymorth Profedigaeth yn cael ei effeithio gan enillion?** 5

**Fydd Taliad Cymorth Profedigaeth yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau rwy'n eu cael?** 5

**Ydy Taliad Cymorth Profedigaeth yn drethadwy?** 5

**Help a chyngor** 5

# Beth yw Taliad Cymorth Profedigaeth

Mae hwn yn fudd-dal di-dreth sy'n seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) eich diweddar bartner. Wrth eich partner rydym yn golygu naill ai eich gŵr, gwraig, partner sifil, neu bartner yr oeddech yn byw â nhw fel petaech yn briod â nhw, ar adeg eu marwolaeth.

## Allaf gael Taliad Cymorth Profedigaeth?

Efallai y byddwch yn gallu cael Taliad Cymorth Profedigaeth os bu farw eich diweddar bartner ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017, ac ar adeg y farwolaeth:

- roeddech o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- Roeddech yn:
  - priod neu mewn partneriaeth sifil gyda'r person a fu farw, neu
  - byw gyda'r person a fu farw fel petaech yn briod a bod gennych blant dibynnol a oedd o dan 20 oed, neu
  - byw gyda'r person a fu farw fel petaech yn briod a'ch bod yn disgwyl plentyn
- roedd eich diweddar bartner wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, a
- roeddech fel arfer yn byw yn y DU neu wlad y mae gennym gytundeb dwyochrog â hi i dalu rhai budd-daliadau'r DU.

Os bu farw eich diweddar bartner cyn 6 Ebrill 2017 ewch i'r adran 'Mwy o wybodaeth' ar dudalen 4 y nodiadau hyn.

Os ydych yn dal i fod yn ansicr a allwch gael Taliad Cymorth Profedigaeth, gwnewch gais beth bynnag.

## Faint gallaf ei gael

Telir Taliad Cymorth Profedigaeth i chi fel cyfandaliad untro ac yna hyd at 18 taliad misol. Efallai na fyddwch yn cael y cyfandaliad ac efallai y byddwch yn cael llai na 18 taliad misol yn dibynnu ar ba bryd y byddwch yn gwneud cais a phryd y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae 2 gyfradd o Daliad Cymorth Profedigaeth.

**Cyfradd uwch** - mae hyn yn cynnwys:

- cyfandaliad o £3,500, a
- hyd at 18 taliad misol o £350.

**Cyfradd safonol** - mae hyn yn cynnwys:

- cyfandaliad o £2,500, a
- hyd at 18 taliad misol o £100.

## Pwy all gael y gyfradd uwch

Efallai y gallwch gael y gyfradd uwch o Daliad Cymorth Profedigaeth os:

- roedd gennych hawl i Fudd-dal Plant pan fu farw eich diweddar bartner
- roeddech yn disgwyl plentyn pan fu farw eich diweddar bartner.

Os oeddech chi neu'ch diweddar bartner yn grŵp Tâl Treth Incwm Uchel Budd-dal Plant ac nad ydych wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant, mae'n rhaid i chi wneud hynny er mwyn i'ch cais am y gyfradd uwch o Daliad Cymorth Profedigaeth gael ei ystyried. I gael mwy o wybodaeth am y Dâl Treth Incwm Uchel Budd-dal Plant, ewch i
**www.gov.uk/tal-treth-budd-dal-plant**

Os oedd eich diweddar bartner yn hawlio Budd-dal Plant ac nad ydych wedi gwneud cais i'w drosglwyddo i'ch enw chi eto, mae'n rhaid i chi wneud hynny er mwyn i'ch cais am y gyfradd uwch o Daliad Cymorth Profedigaeth gael ei ystyried. Darganfyddwch fwy yn **www.gov.uk/child-benefit-child-parent-dies**

## Sut i wneud cais

Llenwch ffurflen BSP1W, neu gallwch wneud cais ar-lein, ewch i: **www.gov.uk/taliad-cymorth-profedigaeth**

Gallwch hefyd wneud cais drwy ffonio'r Gwasanaeth Profedigaeth ar **0800 731 0453** neu ffôn testun **0800 731 0456**.

Mae'n ddrwg gennym orfod gofyn rhai cwestiynau i chi am eich diweddar bartner. Mae angen i ni ofyn y cwestiynau hyn oherwydd bod eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn effeithio ar Daliad Cymorth Profedigaeth.

Os cewch unrhyw anhawster i lenwi'r ffurflen gais hon, gall rhywun arall eich helpu i'w wneud. Gallwch ofyn i ffrind, perthynas neu ganolfan gynghori fel Cyngor ar Bopeth. Neu gofynnwch yn eich Canolfan Byd Gwaith leol.

## Pryd i wneud cais

Dylech anfon eich ffurflen gais BR1W wedi'i chwblhau atom cyn gynted â phosibl.

## Mwy o wybodaeth

Os bu farw eich diweddar bartner cyn 6 Ebrill 2017 ac roeddech yn disgwyl plentyn neu roedd gennych blant dibynnol o dan 20 oed pan fu farw, efallai y byddwch yn gallu cael Lwfans Rhiant Gweddw. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau profedigaeth yn **www.gov.uk/browse/benefits/bereavement**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Daliad Cymorth Profedigaeth yn **www.gov.uk/taliad-cymorth-profedigaeth**

## Mae angen i wladolion yr AEE a'r Swistir gael statws Cynllun Setliad yr UE

Mae'r Deyrnas Unedig (DU) wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Os ydych yn ddinesydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'n ddinesydd y Swistir, mae angen i chi ac aelodau o'ch teulu gael statws mewnfudo'r DU i barhau i fyw yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021.

Mae angen statws arnoch chi a'ch teulu hyd yn oed os ydych eisoes wedi cael dogfen breswylio barhaol gan y Swyddfa Gartref, neu wedi bod yn byw yn y DU ers amser maith. Mae angen i chi wneud cais am statws mewnfudo i fod yn gymwys am fudd-daliadau. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau newydd a phresennol am fudd-daliadau.

Mae'n rhad ac am ddim i wneud cais am statws mewnfudo i'r DU. Nid oes angen i wladolion Gwyddelig a'r rhai sydd â chaniatâd amhenodol i aros yn y DU wneud cais.

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais am Gynllun Setliad yr UE, ewch i **www.gov.uk/eusettlementscheme** neu ffoniwch **0300 123 7379**. Nid oes angen i chi gysylltu â DWP pan fyddwch yn gwneud cais neu'n cael statws. Os bydd DWP angen manylion am eich statws byddant yn cysylltu â chi.

## Mwy am Daliad Cymorth Profedigaeth

### A yw enillion yn effeithio ar Daliad Cymorth Profedigaeth?

Nac ydynt. Nid yw Taliad Cymorth Profedigaeth yn dibynnu ar brawf modd.

Mae hyn yn golygu os ydych yn gweithio, ni fydd eich Taliad Cymorth Profedigaeth yn mynd i lawr oherwydd yr arian rydych yn ei ennill.

### Fydd Taliad Cymorth Profedigaeth yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau rwy'n eu cael?

Na. Ni fydd Taliad Cymorth Profedigaeth yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill a gewch. Yn y tymor hwy, gallai unrhyw fudd-dal arall a gewch gael ei effeithio os nad ydych wedi gwario eich Taliad Cymorth Profedigaeth.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am eich Taliad Cymorth Profedigaeth os byddwch yn gwneud cais am fudd-dal arall.

### Ydy Taliad Cymorth Profedigaeth yn drethadwy

Na. Mae'r holl daliadau yn ddi-dreth.

## Help a chyngor

Os hoffech fwy o wybodaeth am Daliad Cymorth Profedigaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Profedigaeth ar **0800 731 0453**. Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw ac mae'n well gennych ddefnyddio ffôn testun, y rhif yw **0800 731 0456**.

Mae galwadau i rifau 0800 a 0808 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

Mae galwadau i rifau 0300 yn costio'r un faint â galwad arferol. Mae galwadau am ddim os oes gennych funudau am ddim neu gynhwysol yn eich contract llinell daear neu ffôn symudol.

Gallwch hefyd gysylltu â'ch Canolfan Byd Gwaith leol. Gallwch ddod o hyd i'ch Canolfan Byd Gwaith agosaf drwy fynd i
**www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith**

Neu gallwch ddod o hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan Canolfan Byd Gwaith.

Cadwch y nodiadau hyn mewn lle diogel. Nid oes angen eu dychwelyd gyda'r ffurflen.